# Natur Drws Nesaf

## Sefydlu grŵp cymunedol sylfaenol

Yr enw ar y grŵp hawsaf i'w sefydlu yw "cymdeithas anghorfforedig". Mae angen i chi ysgrifennu "cyfansoddiad" neu "ddogfen lywodraethu". Dyma restr o reolau ar gyfer y grŵp. Mae hefyd yn dweud beth mae eich grŵp yn mynd i'w wneud, a sut mae'n mynd i'w wneud.

### Y math yma o grŵp:

- nid yw'n elusen (er gallwch sefydlu elusen os ydych yn dymuno. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y cyngor cywir os ydych eisiau bod yn elusen, oherwydd mae gwahanol fathau, a bydd hyn yn dibynnu ar ble rydych chi.)
- nid yw'n strwythur cyfreithiol ar wahân, sy'n golygu na all y grŵp ymrwymo i gontract neu fod yn berchen ar eiddo – ond gall aelodau unigol wneud hynny.
- mae ganddo aelodau sy'n pleidleisio ar yr hyn y dylai'r grŵp ei wneud
- os bydd y grŵp yn newid, gall ddod yn fath gwahanol o grŵp neu elusen yn ddiweddarach.

### Ysgrifennu cyfansoddiad (ar gyfer grwpiau nad ydynt yn elusennau):

- Penderfynwch ar enw ar gyfer eich grŵp.

- Ysgrifennwch eich nodau – beth ydych chi eisiau i'r grŵp ei wneud? Ble mae'r grŵp yn gweithio, pwy fydd y grŵp yn eu helpu, a sut bydd y grŵp yn eu helpu?

- Aelodaeth. Pwy sy'n aelod? Ydi'r aelodau'n talu ffi? Sut gall pobl ymuno â'r grŵp? Sut gallant adael y grŵp?

Jiwbilî Platinwm y Frenhines 2022 | Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth | Made possible with Heritage Fund | The Queen's Platinum Jubilee 2022 | Ymddiriedolaethau Natur Cymru | Wildlife Trusts Wales

- <u>Cyfleoedd cyfartal.</u> Efallai eich bod yn galw hyn yn Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Ysgrifennwch sut byddwch yn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei anghofio.

- <u>A fydd gennych chi bwyllgor?</u> Mae pwyllgor yn grŵp o bobl sy'n rhedeg y grŵp. Mae'r grŵp fel arfer yn pleidleisio drostynt bob blwyddyn. Does dim rhaid i chi gael pwyllgor. Gallwch chi rannu'r swyddi a chymryd eich tro. Os oes gennych chi bwyllgor, faint o bobl fydd ar y pwyllgor, a beth fyddant yn ei wneud? Ymhlith y swyddi ar bwyllgor mae Cadeirydd (yn arwain y cyfarfodydd), Ysgrifennydd (yn ysgrifennu'r hyn a ddywedir yn y cyfarfod) a Thrysorydd (yn gofalu am yr arian). Mae'r swyddi eraill yn cynnwys Swyddog y Wasg (yn anfon straeon i'r papurau newydd ac yn ateb eu cwestiynau), Codwr Arian (yn codi arian) ac Ysgrifennydd Aelodaeth (yn gofalu am yr aelodau).

- <u>Os nad oes gennych chi bwyllgor,</u> mae'r grŵp cyfan yn rhedeg ei hun, ond bydd angen i chi benderfynu pwy sy'n gofalu am yr arian, a phwy fydd yn gwneud nodiadau mewn cyfarfodydd.

- <u>Cyfarfodydd</u>. Bob blwyddyn, bydd angen i chi gael CCB – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Gall pawb ddod, a byddwch yn dweud wrth bawb beth mae'r grŵp wedi'i wneud, a faint o arian sydd wedi'i wario. Os oes gennych chi bwyllgor, bydd yr aelodau'n cael eu dewis drwy bleidlais. Ysgrifennwch yn eich cyfansoddiad sut rydych chi eisiau i'r cyfarfodydd gael eu cynnal. A fyddwch chi'n pleidleisio ar benderfyniadau neu'n ceisio "dod i gonsensws" drwy siarad amdano nes bod pawb yn cytuno?

- <u>Cyllid</u>. Mae angen i chi ysgrifennu sut byddwch yn trin arian. Gwnewch yn siŵr bod gennych gyfrif banc ar gyfer y grŵp yn unig. Mae'n well cael tri o bobl a elwir yn "llofnodwyr" sy'n golygu bod dau berson bob amser i gytuno ar daliadau. Bydd angen i chi gadw cofnodion o arian sy'n dod i mewn ac yn mynd allan, a chael

datganiad i'w ddangos yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Mae angen i chi hefyd sicrhau, os byddwch yn codi unrhyw arian, mai dim ond ar nodau'r grŵp y caniateir ei wario.

- Newid a therfynu'r cyfansoddiad. Yn eich cyfansoddiad, bydd angen i chi ysgrifennu'r rheolau ynghylch sut gellir newid eich cyfansoddiad, ac a oes angen i chi bleidleisio arno. Hefyd mae angen i chi benderfynu pwy all wneud y penderfyniad i gau'r grŵp, sut gall hynny ddigwydd, a beth sy'n digwydd i unrhyw arian.

Pan fyddwch wedi ysgrifennu eich cyfansoddiad, gofynnwch i bobl eraill ei ddarllen a dweud wrthych beth yw eu barn. Wedyn gofynnwch i bawb yn y grŵp ei ddarllen. Pan fydd pawb yn cytuno ag ef, mae angen o leiaf ddau aelod i'w lofnodi a'i ddyddio. Gwnewch yn siŵr bod gan bawb yn y grŵp gopi.

Am wybodaeth fanylach, edrychwch ar y ddolen yma:
https://www.resourcecentre.org.uk/information/constitutions/